

CYNGOR CAERDYDD

ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT (AEHP)

Teitl Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth:	Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd 2022/24
Newydd/Presennol/Diweddaru/Addasu:	Diweddarau Ein Dyfodol Ni i Gyd 2020/22

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?	
Enw:	Graham Robb a Natalie Holohan
Teitlau Swyddi:	Cadeirydd Annibynnol ac Uwch-swyddog Cynllunio ac Ymyriadau
Gwasanaeth/Tîm:	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Plant
Dyddiad Cwblhau AEHP:	Rhagfyr 2022

Proses AEHP

Datblygwyd y ddogfen hon mewn gweithdai gyda chydweithwyr o Bwyllgor y DU ar gyfer UNICEF (UNICEF UK) a gyda thîm Dinas sy'n Dda i Blant Cyngor Caerdydd. Yn benodol, gwnaethom dynnu ar ganllawiau, offer a chefnogaeth a gynigir gan UNICEF UK i gefnogi datblygiad gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid sy'n parchu hawliau.

Mae'r ddau grŵp hyn wedi adolygu'r drafftiau terfynol a chafodd newidiadau eu hymgorffori yn y drafft hwn.

Yn dilyn cymeradwyaeth i'r AEHP hwn gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd caiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth.

CAM 1: DIBEN/CWMPAS

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd (GCI) yn bartneriaeth o fewn gwasanaethau Caerdydd sy'n cynnwys Gofal Cymdeithasol Plant, Addysg, Iechyd, Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Yr ieuenctid. Rydym yn gweithio gyda chymunedau i atal pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, ond os ydyn nhw, yna rydym yn gweithio ar adeg arestio, gorchymyn cymunedol, gorchymyn llys, neu os ydyn nhw'n cael eu cadw neu eu dedfrydu i'r ddalfa, tan adeg eu rhyddhau.

Rydym yn gwybod bod y rhai sy'n cael eu niweidio gan blant a phobl ifanc yn aml yn blant a phobl ifanc eraill a heb help gall rhai o'r rheiny fynd ymlaen i achosi niwed i eraill. Felly rydym yn cefnogi gwaith i helpu pobl ifanc i deimlo eu bod yn ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth.

Mae'r Strategaeth wedi'i hysgrifennu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac mae'n ddatganiad cyffredinol o'r hyn rydyn ni'n anelu at ei gyflawni gyda'n gilydd. Mae manylion y camau gweithredu yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol.

DS Yn ôl y gyfraith mae pob person ifanc hyd at 18 oed yn cael ei amddiffyn drwy gael statws 'plentyn'. Yn y ddogfen hon byddwn yn defnyddio'r term plentyn ond mewn gwaith beunyddiol rydym yn gwybod ein bod yn gweithio gyda phobl ifanc ar eu taith datblygu glasoed.

1. Beth yw'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?

Crynowch/disgrifiwch ei nodau cyffredinol ac unrhyw nodau sy'n benodol i blant.

Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn statudol, wedi'u hanelu at blant 10 oed hyd at 18 oed sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder, neu sydd ar ei chyrrion. Rydym yn grŵp staff amlasiantaethol sy'n cynnwys yr Heddlu, Gwaith Cymdeithasol, Gwaith Ieuenctid, Iechyd, Addysg a'r Gwasanaeth Prawf felly'n alinio ein gwaith ymhlith yr holl wasanaethau.

Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu harchwilio gan AEM y Gwasanaeth Prawf. Digwyddodd hyn yn 2020 pan wnaed dyfarniad cyffredinol o "Annigonol". Nododd Ailymweld yng ngwanwyn 2022 welliant sylweddol a chyrrhaeddwyd dyfarniad cyffredinol "Angen Gwella". Llywiodd y cynllun Gweithredu a ddeilliodd o'r arolygiad hwnnw y strategaeth hon a'r AEHP.

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Ein nod yw atal troseddu gan blant, gyda ffocws ar:

Leihau'r nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf.

Lleihau ail-droseddu gan blant

Lleihau'r defnydd o'r ddalfa i blant

Mae GCI Caerdydd ar unrhyw adeg yn gweithio gyda tua 130 o blant a phobl ifanc. I rai pobl ifanc mae cysylltiad â'r GCI yn fyrhoedlog oherwydd dyna'r cyfan sydd ei angen i helpu plentyn i ddatrys problemau a chael yr help sydd ei angen i lwyddo. Ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r profiad o arestio a chyswllt arall â phrosesau cyfiawnder ieuencid gael effaith negyddol oni bai ein bod yn gwneud y rheiny mor 'dda i blant' â phosib. I rai pobl ifanc mae cyswllt yn hirach: er enghraifft gall goruchwyllo gorchymyn llys bara hyd at 12 mis, mae nifer fach yn cael eu goruchwyllo am gyfnodau hirach gan gynnwys yn y ddalffa ac adsefydlu yn y gymuned wedi dedfryd o garchar.

Mae'r strategaeth hon "Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd" ar gyfer 2022-2024 yn disgrifio'r themâu datblygu cyffredinol. Bob blwyddyn, mae Cynllun Cyfiawnder Ieuencid blynyddol yn nodi'r gwelliannau lefel gwasanaeth. Mae'r ddwy ddogfen yma yn eu hysbysu ei gilydd. Ar gyfer 2022-24 mae elfennau craidd y strategaeth fel a ganlyn:

Ein Datganiad Gweledigaeth Y dyheadau uchaf ar gyfer y plant, wedi'u cefnogi gan y tîm cywir yn gwneud y gwaith cywir

Mae'r dystiolaeth yn glir bod rhoi cyfleoedd cadarnhaol i bobl ifanc yn eu bywydau yn cyfrannu'n allweddol at atal trosedd a niwed i eraill yn y dyfodol yn ogystal â gwella lles a hunan-barch. Rydym yn ymrwymedig at ddull sy'n seiliedig ar hawliau achos mae hynny wedi ei brofi'n allweddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol wrth weithio gyda phobl ifanc.

Ein diben.

- a) Fel Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder a gyda'r rhai sy'n cael eu niweidio gan droseddau i leihau nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system CI; lleihau aildroseddau a lleihau'r defnydd a wneir o'r ddalffa
- b) Rhaid i ni glywed llais plant, a gweithio gyda nhw, i'w helpu i sicrhau deilliannau gwell ac osgoi troseddoli diangen
- c) Fel Partneriaeth, rydym yn gweithio gyda gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol ehangach i gyflawni'r nodau cyffredin o atal, lleihau troseddau a lleihau niwed yn ddiweddarach mewn bywyd.
- d) Fel gwasanaethau partner rydym yn clywed ac yn gweithio gyda'r plant a'r teuluoedd i'w helpu i weld penderfyniadau, dewisiadau ac opsiynau gwahanol.
- e) Helpu plant i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol a gwybod am ddewisiadau gwell/penderfyniadau gwahanol drwy ymarfer yn seiliedig ar berthnasoedd sy'n cefnogi mynediad at gyrhaeddiad, lles ac ymdeimlad o ddiogelwch a gobaith.
- f) Helpu teuluoedd, cymunedau a phartneriaid yng Nghaerdydd i gael hyder mewn gwasanaethau partneriaeth
- g) Datblygu a defnyddio sail dystiolaeth ar gyfer pam rydyn ni'n rhoi camau gweithredu ar waith – drwy asesu'r effaith ar bob plentyn

Ein hegwyddorion

1. Rydym yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc - rydyn ni'n gwybod am ddatblygiad pobl ifanc
2. Rydym yn gweithio gyda theuluoedd a gofalfyr – byddwn ni'n eu clywed ac yn gweithio gyda nhw i gefnogi deinameg teulu cadarnhaol
3. Rydym yn adeiladu perthnasoedd dibynadwy drwy ymarfer Seiliedig ar Drawma ac ymarfer Adferol a thrwy adeiladu ar gryfderau'r plentyn a'i gyd-destun
4. Byddwn yn adnabod ac yn deall gwendidau'r plant ac yn rhannu sut i'w rheoli, yn enwedig ar adegau o greisis sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgu.
5. Byddwn yn adeiladu dull sy'n seiliedig ar Hawliau Plant – yn seiliedig ar
 - ffocws ar weithredodd sy'n gwneud i'r plentyn deimlo'n ddiogel
 - parch at Urddas pob plentyn
 - Gweithio i gefnogi holl anghenion y plentyn
 - bob amser yn gweithio er lles y plentyn
 - cyfranogiad, sy'n golygu sicrhau ar bob cam ein bod yn gweithio gyda'r plant ac yn clywed beth yw eu barn
 - sicrhau bod ein gwaith i gyd yn ymwneud ag anghenion unigol ac nad yw'n gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, rhywedd/cyfeiriadedd neu nodwedd arall
 - bod yn dryloyw (yn agored) ynghylch sut rydym yn gwneud a'r hyn rydym yn ei wneud
6. Byddwn yn gweithio'n gyntaf i ddiogelu'r plentyn gan gynnwys edrych ar y cyd-destun y maent yn byw ynddo – teulu, cymuned, ysgol. Byddwn yn cydbwysu hyn â gweithredoedd i amddiffyn pobl eraill.
7. Rydym yn wasanaeth amlasiantaethol, yn gweithio bob amser mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda gwasanaethau cyffredinol

Mae gan "Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd" bedwar ymrwymiad craidd . Yn yr adran hon rydym yn esbonio beth fydd hynny'n ei olygu i'r plant rydym yn gweithio gyda nhw.

Ymrwymiad 1 GWEITHIO GYDA PHLANT, TEULUOEDD A PHARTNERIAID

Rydym yn gwybod (oherwydd ein bod wedi gofyn iddynt) fod plant eisiau gweithio gyda rhywun sy'n gwrando arnynt, yn treulio amser i ddod i'w hadnabod, yn eu helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd ac yn gweithio gyda theuluoedd a gwasanaethau eraill (megis iechyd, addysg neu ofal cymdeithasol) a phartneriaid cyfiawnder (megis yr Heddlu, paneli Cymunedol, Llysoedd a'r Gwasanaeth Prawf) i gael y deilliannau gorau posibl. Mae hyn yn golygu meithrin perthynas a gweithio i gael iaith a dulliau gweithredu sy'n galluogi plant a theuluoedd i ddeall ac ymgysylltu'n gadarnhaol.

Ymrwymiad 2 DADANSODDI SYSTEMAU a NEWID

Mae ein ffocws ar bob plentyn unigol ond rydym hefyd yn gwybod bod rhwystrau i gynnydd yn deillio o'r ffyrdd y mae strwythurau mewn cymdeithas neu yn y system gyfiawnder ieuencid yn gweithio. Ein rôl fel Arweinwyr Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd yw defnyddio data a phrofiadau byw plant a theuluoedd i nodi unrhyw rwystrau a gweithio i'w dileu. Gallwn fynd â'r materion hyn, yn ôl yr angen, i bobl fwyaf blaenllaw Caerdydd i helpu eu datrys.

Ymrwymiad 3 DEWISIADAU GWELL; LLEOEDD MWY DIOGEL

Weithiau nid yw ein plant yn ymwybodol, neu'n amharod derbyn, oherwydd eu profiadau bywyd, fod ganddynt ddewisiadau go iawn a bod y dewisiadau hynny'n gallu rhoi gobaith, hyder a pharch iddynt. Mae ein rôl yn rhannol yn un sy'n eu helpu i ddeall a gwneud dewisiadau cadarnhaol. Weithiau mae'n neges anodd ei chlywed ac i eraill ei hadnabod. Mae yna rai lleoliadau a digwyddiadau allweddol hefyd ym mywyd plentyn, gan gynnwys cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, lle gall gwneud rhywle'n fwy diogel annog y plentyn i ymgysylltu a gweld posibilrwydd o newid. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gyd i gyflawni hyn.

Yn gryno, rydym yn gwybod mai'r ffordd orau o weithio gyda phlant a theuluoedd yw drwy ddeall ei bod yn ddigon posib eu bod wedi profi trawma a hyd nes y bydd hynny'n cael sylw ni allwn gyflawni cynnydd arall. Rydym hefyd yn gwybod bod datrys gwrthdaro neu niwed drwy ddefnyddio prosesau adferol yn llwybr effeithiol iawn i helpu pawb yr effeithir arnyh nhw i symud ymlaen o bwynt argyfwng - gan gynnwys y rhai sydd wedi profi'r niwed sy'n cael ei achosi gan blant.

Ymrwymiad 3. GWNEUD IDDO DDIGWYDD: LLYWODRAETHU AC ARWAIN

Arweinwyr Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd (Gweler y partneriaid a restrir yn adran 1) yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, sy'n atebol i Brif Weithredwr Caerdydd dros ddarparu'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid (GCI) yng Nghaerdydd. Rydym yn cael ein dal i gyfrif am ein perfformiad i Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)

Mae gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid yn cael eu harolygu gan arbenigwyr yn yr Heddlu, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a gwnaeth yr arolygiad diweddaraf (Cyhoeddwyd Awst 2022) lywio'r strategaeth. Mae'r adroddiad yn [Adroddiad arolygu Caerdydd-GCI.pdf](#). Cafwyd y crynodeb canlynol yn y Nodyn Diogelu:

Mae GCI Caerdydd wedi gwneud cynnydd ac wedi ymdrechu'n sylweddol i fynd i'r afael â'r problemau y daethon ni o hyd iddyn nhw yn 2020. Maent bellach mewn sefyllfa well, mewn meysydd allweddol, i ymdrin ag anghenion plant o dan eu goruchwyliaeth, gwella eu bywydau, ac amddiffyn y gymuned leol. Er bod dyfarniad 'Angen Gwella' yn golygu bod ganddyn nhw dipyn o ffordd i fynd eto, mae GCI Caerdydd yn dangos arwyddion y gallant, ac y byddant, yn parhau i ddatblygu.

Bu gwelliannau hefyd i wasanaethau plant GCI, gyda gwell cydweithio ar draws llawer o'r asiantaethau a sefydliadau statudol allweddol. Mae hyn wedi arwain at waith da o fewn achosion Datrysiad y Tu Allan i'r Llys ac adsefydlu.

2. **A fydd y polisi/ strategaeth/ prosiect/ gweithdrefn/ gwasanaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc?**
3. **Meddylwch am ba grwpiau o blant a phobl ifanc y bydd yn effeithio arnyn nhw.**

Bydd y strategaeth hon yn llywio gwaith y partneriaid yng Nghaerdydd â phlant i'w hatal rhag dod i mewn i'r system gyfiawnder; ac

- wrth ymwneud â Phlant ar ôl adeg arestio ac yn nalfar heddlu yn ogystal â'r rhai sydd wedi profi niwed
- Cefnogi Plant trwy brosesau llys a'r tu allan i'r llys, gan gynnwys pecynnau cymorth mechnïaeth
- Bydd ein prosesau gwaith, gan gynnwys asesu Plant a chasglu gwybodaeth, hefyd yn helpu o ran sut i gydymffurfio â gorchmynion llys
- Cynnig cyfleoedd a phrosesau
- Rheoli pontio o GCI i wasanaethau mwy cyffredinol neu i wasanaethau cyfiawnder ôl-18

Y Plant:

Fel ciplun, ym mis Mawrth 2022 roedd 134 o blant yn gweithio gyda'r GCI. Roedd bron 9 o bob deg yn wrywaidd ac roedd 8 o bob 10 yn wyn. Roedd y rhan fwyaf yn 15-17 oed. Mae hynny'n ei gwneud hi'n bwysicach fyth ein bod yn cynllunio i gael y gwasanaethau cywir i ferched, i blant iau ac i'r rhai o ethnigrwydd gwahanol.

Ambell enghraifft o anghenion y plant, y mae partneriaid yn gweithio i'w diwallu

Mae gan **45%** o'r plant yng Nghyfnod Allweddol 4 anghenion dysgu wedi eu nodi

Mae **83** yn blant sydd â chynllun gofal a chymorth, **16** â chynllun Amddiffyn Plentyn, a **36** yn Blant sy'n Derbyn Gofal

Oherwydd gwaith y gwnaethon ni'r llynedd rydym bellach yn gweithio i nodi a darparu gwasanaethau hefyd ar gyfer

Rhai ag anghenion iaith, Lleferydd a Chyfathrebu

Rhai ag anghenion iechyd meddwl

Rhai nad ydynt mewn ysgol brif ffrwd neu rai nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth

Y 3 trosedd uchaf y cafodd plant eu harestio amdanynt:

1. Trais yn Erbyn y Person, 2. Dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, 3. Tramgwyddau moduro

Y prif risgiau i blant yr ydym am ffocysu arnynt:

Trais leuenctid Difrifol - yn aml yn codi o'r ffordd mae oedolion yn manteisio ar bobl ifanc.

Anghymesuredd - sy'n golygu bod tystiolaeth bod mwy o blant o rai grwpiau nag a ddylai fod – er enghraifft gallai hynny fod ynghylch ethnigrwydd neu eu bod yn derbyn gofal. Mae gennym y data i ddangos hyn - nawr gallwn ddechrau herio'r systemau neu'r ymddygiadau a allai arwain at y patrwm hwn.

Olrhain y newidiadau mewn risgiau ym mywydau plant . Bydd rhai o effeithiau'r pandemig yn parhau i effeithio ar blant a theuluoedd am beth amser ond hefyd mae'n rhaid i ni fod yn wyladwrus o newidiadau'n deillio o ffactorau cenedlaethol a allai wneud pethau'n well.....neu'n waeth.. i blant – arian sy gan y cartref, newidiadau yn y gyfraith.

CAM 2: ADEILADU AC ASESU

4. Mae Egwyddorion Cyffredinol y CCUHP (Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) wrth wraidd dull sy'n seiliedig ar hawliau plant, ac wedi'u hymgorffori yn erthyglau 2, 3, 6 a 12 y Confensiwn. Nodwch sut mae eich polisi/ strategaeth / prosiect/ gweithdrefn/ gwasanaeth wedi ystyried y rhain.

Bwriad gwasanaethau CI Caerdydd yw alinio â'r egwyddorion, a'u gwneud yn berthnasol i bob plentyn yng Nghaerdydd. Mae rhai erthyglau ac egwyddorion penodol sydd angen ymateb penodol gan y gwasanaethau CI.

Dull yn Seiliedig ar Erthygl a Hawliau Plant : 7 Egwyddor	Beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd?	Ble mae hyn yn y strategaeth?	Dangosyddion
Erthygl 40 Dylai pob plentyn yr honnir ei fod wedi, neu sy'n cael ei gyhuddo o, neu y cydnabyddir ei fod wedi torri cyfraith droseddol bob amser gael ei drin mewn modd sy'n hyrwyddo ymdeimlad y plentyn o urddas a gwerth.	Dulliau o ymgysylltu, asesu, dadansoddi ar gyfer prosesau ac ymyriadau llys neu'r tu allan i'r llys sy'n ymateb i anghenion unigol y plentyn (*fel y'i diffinnir gan y gyfraith hyd at 18 oed) mewn ffyrdd sy'n cydnabod y trawma a brofwyd.	Diben ac Egwyddorion t11 a Gwaith seiliedig ar Hawliau t12-14	Bydd mwy o blant yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu hanghenion a'u gobeithion unigol yn cael eu helpu yn ystod eu gwaith gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ifanc

Mae Erthygl 5 yn cyflwyno'r cysyniad o 'allu esblygol' plentyn	Dylai'r holl waith fod yn addas at oedran - ac at gam datblygu - yr unigolyn yn eu cyd-destun - gan wneud ymatebion y gwasanaeth yn rhai sy'n llai tebygol o fod yn addas at oedolion.	Ymrwymiad 1 Gweithio gydag Ymarfer sy'n seiliedig ar y Plentyn a'r Teulu	Bydd arweinwyr yn gallu dangos bod gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn iawn ar gyfer oedran a sefyllfa deuluol plant
<i>Egwyddor (yn rhydd rhag gwahaniaethu):</i>	Cymuned a chasgliad o wasanaethau a systemau i blant, teuluoedd, cymunedau lle nad yw treftadaeth ethnig, ddiwylliannol plant yn ffactor sy'n dylanwadu'n anghymesur ar gamau gweithredu neu ganlyniadau'r gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn eu bywydau. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai cynrychiolaeth anghymesur yn y system cyfiawnder ieuencid fod yn amlwg er enghraifft o ran Plant sy'n derbyn gofal neu o ran nodweddion gwarchoddedig eraill. Fel aelodau'r Bwrdd statudol rydym yn ymrwymo i gefnogi gwaith y GCI yn mynd i'r afael ag anghymesuredd AC i weithio i gysoni ein gwasanaethau â'r ymrwymadau hynny oran dileu anghymesuredd.	Ymrwymiad 2 DADANSODDI SYSTEMAU a NEWID Anghymesuredd ac amrywiaeth T20	Bydd arweinwyr yn gallu dangos bod y rhwystrau a'r strwythurau allai arwain at orgynrychioli plant yn y system gyfiawnder ieuencid yn lleihau. Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd wedi mabwysiadu strategaeth sydd wedi'i datblygu o arfer gorau cenedlaethol o ran cefnogi plant o dreftadaeth du ac ethnig leiafrifol.
<i>Egwyddor (budd pennaf y plentyn):</i>	Mae'r Fframwaith ymarfer i'w ddatblygu yn seiliedig ar flaenoriaeth 'buddiannau gorau'.	Diben ac Egwyddorion ac Ymrwymiad 1 "gweithio gyda..." Fframwaith Ymarfer t 16	Bydd gan arweinwyr gwasanaethau dystiolaeth bod penderfyniadau gwasanaeth yn amlwg wedi eu seilio ar 'fuddiannau gorau' y plentyn
<i>Egwyddor (bywyd, goroesi a datblygiad):</i>	Mae Fframwaith DIOGEL Caerdydd yn hyrwyddo camau gweithredu mewn partneriaeth i hyrwyddo diogelwch personol a lleoedd mwy diogel	Ymrwymiad 2 DADANSODDI SYSTEMAU a NEWID Fframwaith DIOGEL T 19 Ymrwymiad 3 Lleoedd mwy diogel T24	Bydd plant yn dweud wrthym, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u niweidio, eu bod yn teimlo'n fwy diogel .
<i>Egwyddor (parchu barn plant)</i>	Mae'r Fframwaith ymarfer sydd i'w ddatblygu yn seiliedig ar yr egwyddor o barch at farn y plentyn	Ymrwymiad 1 "gweithio gyda..." Fframwaith Ymarfer t 16	Bydd plant yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ar bob cam o'u cysylltiad â'r system gyfiawnder ieuencid
<i>Egwyddor (Cyfranogiad)</i>	Bydd datblygu'r strategaeth Cyfranogi, wedi'i llywio gan hyfforddiant partneriaid, yn diffinio	Dibenion ac egwyddorion	Mae plant yn adrodd yn uniongyrchol wrth arweinwyr, ac mae data'n dangos,

	strwythur a phrosesau i gefnogi cyfranogiad amlwg		bod cyfranogiad wedi'i adeiladu'n llawn i ddiwylliant y gwasanaeth.
<i>Egwyddor (Urddas)</i>	Bydd hyn wedi'i wreiddio yn y Fframwaith ymarfer.	Ymrwymiad 1 "gweithio gyda..." Fframwaith Ymarfer t 16	Mae plant yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod staff gwranddo ac yn cefnogi'n weithredol.
<i>Egwyddor (Cyd-ddibynol ac anrhanadwy)</i>	Mae'r fframwaith asesu cyffredin ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yn ddull cyfannol. Bydd hyfforddiant, goruchwyliaeth a monitro'n sicrhau bod hyn yn wir i bob plentyn	Ymrwymiad 1 Gweithio gydag P 16 Cefnogi pontio Ymrwymiad 3 Lleodd mwy diogel t24	Mae plant a theuluoedd yn dweud bod anghenion y plentyn yn cael eu hadnabod a bod camau'n cael eu rhoi ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny, o'r ymgysylltiad cyntaf, i'r asesu, ac yna'r gweithredu.
<i>Egwyddor (Tryloywder ac atebolrwydd)</i>	Bydd trefniadau llywodraethu trwy'r Gwasanaethau Plant, Bwrdd CI Caerdydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn monitro, gwerthuso ac adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni'r egwyddorion hyn	Ymrwymiad 4 Gwneud iddo ddigwydd T 25	Bydd Arweinwyr CI yn adrodd ar gynnydd y gwaith yn seiliedig ar hawliau i'r Byrddau cywir yng Nghaerdydd ac yn gwneud cynnydd cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad arferol ar y strategaeth

Dylech gyfeirio at y [rhestr lawn Erthyglau CCUHP](#) wrth lenwi'r ffurflen hon ac ychwanegu unrhyw erthyglau perthnasol eraill uchod. I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth ar Erthyglau CCUHP, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

5. Beth yw effaith debygol/gwirioneddol y cynnig ar hawliau plant? A yw'n bositif, yn negyddol neu'n niwtral?

Mae Bwrdd CI Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau gwell canlyniadau i blant ac y bydd hyn yn cael ei gyflawni gan y dull hawliau Plant hwn nid yn unig yn y gwasanaeth CI ond hefyd yn y gwaith gyda'r partneriaid statudol a phartneriaid eraill gan gynnwys grwpiau cymunedol.

Rydym yn cydnabod na fydd hyn yn hawdd. Mae'r strategaeth t14 yn cyfeirio at y gweithdy yng ngwanwyn 2022 a wnaeth gydnabod rhai o'r heriau y bydd hyn yn eu cyflwyno. Bydd y rhain yn cael sylw yn y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd ar sicrhau ansawdd a datganiadau ymarfer y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid.

Gall fod tensiwn rhwng y nod dymunol o 'gydsyniad ar sail gwybodaeth' gan blant a'r prosesau cyfreithiol a'r amserlenni sydd eu hangen

Sut gallwn asesu bod y prawf 'buddiannau pennaf' yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sydd hefyd yn adlewyrchu camau datblygiadol plant

Sut y gellir rhannu'r ymrwymadau hyn ymhlith gwasanaethau a'u cyfleu'n effeithiol i blant, gofalwyr a rhieni ar adeg a allai fod yn gyfnod o greisis.

Sut i adeiladu ar ymwybyddiaeth ynghylch ymarfer adferol a seiliedig ar drawma yn y gwasanaeth

Sut mae modelu sut rydym yn 'cydgynhyrchu' gwaith gyda'r plant a'r teuluoedd

Sut gall systemau Rheoli a Llywodraethu adlewyrchu, atgyfnerthu a gwerthuso sut mae'r saith egwyddor y dull Seiliedig ar Hawliau yn cael eu cymhwyso.

Rydym hefyd yn cydnabod y risg o labelu pobl ifanc yn rhan o garfan Cyfiawnder Ieuencid, ac o fewn cyfyngiadau'r system gyfiawnder byddwn yn ymdrechu i gynnal anhysbysrwydd. Fodd bynnag, mae angen i ni hefyd ddod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu â chymunedau i gynnig sicrwydd am y ffordd y mae partneriaid CI yn gweithio gyda phlant o ran ystod o fathau o droseddau sy'n cael eu hadrodd, o ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r troseddau mwyaf difrifol.

Mae pob agwedd ar strategaeth CI yn anelu at gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at hawliau plant. O fewn cyfyngiadau statudol fframwaith cyfreithiol Cyfiawnder Ieuencid rydym yn cydnabod y rhwystrau strwythurol a nodwyd yn adroddiadau UNICEF ar hawliau Plant yng Nghymru a Lloegr ee Oed cyfrifoldeb troseddol

Mynediad cyfartal i gyfleoedd dargyfeiriadol

Mae rhai o'r rhain yn amlwg yn negyddol mewn perthynas â dull sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Ond mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol bod ein gwasanaethau yn 'Blentyn yn Gyntaf, Troseddwr yn Ail'. Mae Caerdydd yn cydnabod hyn fel llwybr strategol allweddol, ac mae'n llywio'r cynllun CI blynyddol.

Mae cymhlethdod y system Cyfiawnder Ieuencid amlasiantaethol yn golygu bod her benodol o ran cyflawni ymarfer cyson ymhlith yr asiantaethau niferus sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth statudol, gan gynnwys Llysoedd ac Ystâd Ddiogel. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol yn y gwasanaethau hyn i gynyddu'r gallu i ddilyn dull sy'n seiliedig ar hawliau plant

Mae ffocws yn y system cyfiawnder ieuencid hefyd ar ddiwallu anghenion y rhai sy'n cael eu niweidio gan droseddu. Mae llawer o'r rheiny eu hunain yn blant. Byddwn yn gweithio i adeiladu ein prosesau adferol i gynnwys, lle gallwn, y rhai a niweidir gan droseddu .. a byddwn hefyd yn gweithio gyda Sefydliadau dioddefwyr i deall a diwallu eu hanghenion ar sail y saith egwyddor.

6. Sut bydd y gwasanaeth yn cyflawni, cefnogi, a hyrwyddo hawliau plant?

Cyflawni: Mae gwaith y system CI yn cael ei gefnogi gan y Prif Weithredwr, y Cadeirydd Annibynnol, y Bwrdd a'r Rheolwr Gweithredol.

- Drwy ddatganiad penodol am Ddull yn Seiliedig ar Hawliau Plant yn strategaeth 22-24
- Drwy gamau gweithredu yng Nghynllun CI statudol 22-23 a 23-24 a chynlluniau gwaith i ddarparu canlyniadau mesuradwy
- Drwy waith y tîm rheoli
- Drwy hyfforddiant staff a phartneriaid – partneriaid cyfartal - a dyluniadau'r gwasanaeth
- Drwy systemau sy'n gwirio ansawdd y gwaith a wneir.

CAM 3: LLAIS A THYSTIOLAETH

7. Tystiolaeth

8. Ydych chi wedi chwilio am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc, ac wedi eu cynnwys? Beth ydych chi'n ei wybod am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r cynnig?

Casglwyd y dyfyniadau uniongyrchol gan blant yn y strategaeth o sesiynau 1 wrth 1 gweithdai bach yng ngwanwyn 2022. Dywedon nhw wrthym fod yr heriau o ran adeiladu ymddiriedaeth yn sylweddol, mai gweithio'n gynharach gyda phlant yw'r flaenoriaeth, bod meithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda gweithwyr unigol yn allweddol i'w helpu nhw a'u teuluoedd i ddeall yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw.

Rydym yn gwybod bod llawer i'w wneud i sicrhau bod barn y plentyn yn amlwg yn y cofnodion ar lefel unigol, ar lefel system gyfan ac wrth ddod i benderfyniadau strategol.

Mae gwaith ymgysylltu hyd yn hyn wedi cynnwys:

- Meithrin Cydberthnasau** Mae Rheolwyr Achos yn gweithio mewn ffordd sy'n Seiliedig ar Drawma, mae hyn yn golygu eu bod yn neilltuo amser i ymgysylltu â'r bobl ifanc a dod i'w hadnabod cyn iddyn nhw ddechrau gweithio ar y drosedd. I CI Caerdydd yr hyn sy'n bwysig yw'r unigolion, eu deall nhw a'u hanghenion, nid eu labelu nhw fel troseddwyr.
- Taith GCI.** Drwy gydol taith person ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, maen nhw'n cael y cyfle i ddweud eu stori, i gyfrannu at eu dulliau ymyrraeth a rhoi adborth arny'n nhw i'w rheolwr achos. Ar bob adeg allweddol yn eu taith, mae lleisiau'r bobl ifanc a'u rhieni yn cael eu clywed a gweithredir arnynt.

- **Ymgynghoriad Strategaeth Ein Dyfodol Ni i Gyd Llais Pobl Ifanc.** Panel o 10 o Bobl Ifanc o wahanol rannau GCI Caerdydd. Sesiynau 1 wrth 2 a gweithdai mewn grwpiau bach i archwilio materion sy'n bwysig i bobl ifanc a sut roedden nhw'n teimlo y gall GCI Caerdydd eu cefnogi, yr sy'n gweithio a'r hyn y gellid ei wella. Trafodwyd sut y gall GCI eich helpu i fyw bywyd mwy diogel, sut y gall GCI eich cefnogi i lwyddo mewn bywyd. Trafodwyd risgiau mae Pobl Ifanc yn eu hwynebu a chyfranogiad PI gydol eu taith.
- **Digwyddiad Lansio'r Strategaeth.** Panel o 5 o bobl ifanc o wahanol rannau o GCI Caerdydd. Gweithdai gyda grwpiau bach i gynllunio, cydlynu a chyd-hwyluso'r digwyddiad lansio'r strategaeth. PI yn creu cyflwyniad o PI nodweddiadol o Gaerdydd a'i daith gyda'r GCI. PI yn cynllunio cyflwyniad i'r digwyddiad lansio. PI yn creu cwis rhyngweithiol ar gyfer mynychwyr. PI yn penderfynu ar bynciau trafod mewn grwpiau ar wahân yn y digwyddiad, ynglŷn â materion sy'n wynebu pobl ifanc yng Nghaerdydd a Hawliau Plant.
- **AEHP** Panel o 3 o bobl ifanc o wahanol rannau GCI Caerdydd. Sesiwn fach i drafod sut gellir dwyn Strategaeth GCI Caerdydd, y staff a'r bwrdd i gyfrif, gyda ffocws ar Hawliau Plant.
- **Adborth rhyngweithiol.** Casglu adborth gan bobl ifanc drwy holiadur Fy Meddwl Fy Hun ac ap Xchange.
- **Sgyrsiau gydag Arweinwyr Strategol.** Bu grŵp bach o 5 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn sgyrsiau gydag arweinwyr strategol am bynciau y mae pobl ifanc yn teimlo'n angerddol drostyn nhw. Bu pobl ifanc yn trafod eu profiadau gydag iechyd meddwl, addysg a chyfiawnder ieuencid, gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.
- **Pwyllgor Craffu'r Cynghorwyr.** Aeth pedwar o bobl ifanc i'r pwyllgor craffu i roi cipolwg ar eu bywydau a sut mae'r gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn gweithio gyda nhw
- **Arolygiad GCI Ebrill 22.** Casglwyd barn pobl ifanc gan arolygwyr a chyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a gyhoeddwyd.

Yn y dyfodol bydd GCI Caerdydd yn parhau i gyrchu, datblygu, a chefnogi barn pobl ifanc

- Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i roi adborth trwy ddulliau creadigol, gan gynnwys yr Ap Xchange
- Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau gorchwyl a gorffen ar faterion penodol sy'n bwysig iddyn nhw
- Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i adfyfrio ar eu taith, ar ôl i orchymyn ddod i ben
- Bydd GCI Caerdydd yn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc barhau i ymgysylltu â'r gwasanaeth
- Bydd GCI Caerdydd yn datblygu Strategaeth Gyfranogi gyda dolenni adrodd ar gyfer gwerthuso
- Bydd gan staff a gwirfoddolwyr ddealltwriaeth glir ac ymarferol o ystyr cyfranogiad
- Bydd rheolwyr yn cefnogi staff drwy oruchwylio a monitro
- Bydd rheolwyr yn adolygu ac yn monitro cofnodion ffeiliau achos, a phrosesau craffu a sicrwydd ansawdd
- Bydd y Bwrdd yn cwblhau'r gwaith craffu ar ddangosyddion ac ymgysylltu uniongyrchol

Bydd GCI Caerdydd yn ymgysylltu â gwaith hawliau plant partneriaid

- Rhianta Corfforaethol o fewn Cyngor Caerdydd yn datblygu Cyngor Plant
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru, Rhwydwaith Llysgenhadon Ieuencid RhLII

- c. Pobl ifanc y Bwrdd Iechyd
- d. Heddlu De Cymru
- e. Ystâd Ddiogel – Hillside a Pharc yn asesu eu gwaith adsefydlu
- f. Arolygon Gwasanaeth Ieuencid / Addysg

9. Sut ydych chi'n bwriadu adolygu'r polisi/ strategaeth/ prosiect/ gweithdrefn/ gwasanaeth i sicrhau ei b/fod yn parchu, diogelu a chyflawni hawliau plant?

Rhowch amlinelliad o'r broses fonitro ac adolygu ar gyfer gweithredu'r strategaeth / polisi/ y project/ gweithdrefn neu gyflwyno'r gwasanaeth a sut y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon.

Mae amrywiol fecanweithiau ar waith

- a) Cynllun gwaith y Bwrdd i graffu ar berfformiad a chynnal gwaith ymgysylltu â phobl â phrofiad byw unigol
- b) Adolygiad blynyddol ar y Cynllun CI
- c) Adolygiad ar strategaeth 20-22 sydd wedi llywio barn ar strategaeth 22-24
- d) Bydd adolygiad o'r strategaeth yn haf 23 i lywio camau gweithredu

CAM 4: CYLLIDEB

10. Beth yw'r gyllideb ar gyfer y polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth? Oes unrhyw rannau ohoni wedi'u neilltuo i blant a phobl ifanc?

Yn 2022/23

- Roedd ailgynllunio rôl yn y tîm arwain yn cynnwys arweinydd cyfranogiad
- Dyrannwyd cyllideb ar gyfer cymryd rhan mewn perthynas â Rhaglen yr Haf.
- Dyrannwyd adnoddau ar gyfer y grŵp Cyfranogi a hyfforddiant CDdB

Bydd cyllideb 23/24 ar gyfer cynllun CI 23/24 a strategaeth 22-24 yn cael ei llywio drwy gynllunio yn ystod gaeaf 22/23


CAM 5: CAMAU GWEITHREDU WEDI’U NODI

11. Pa gamau gweithredu sydd wedi eu nodi neu ba newidiadau a wnaed i'r cynnig o ganlyniad i'r asesiad hwn?

Cafodd y gwaith llunio strategaeth ers Ionawr 2022 ei lywio gan hyfforddiant Cam A a B UNICEF-UK ar gyfer tua 12 o staff strategol ac ymarfer. Yn ystod mis Mawrth i fis Mai gwnaeth cyfraniad PI lywio’r teitl, yr ymrwymadau, y digwyddiadau ffocws, y dyfyniadau a’r astudiaethau achos.

AWDURDODI

Dylai Prif Swyddog y polisi/strategaeth/project/gweithdrefn/gwasanaeth/swyddogaeth gwblhau'r templed a dylai'r rheolwr priodol ym mhob Gwasanaeth ei gymeradwyo.

Cwblhawyd Gan:	Graham Robb , Cadeirydd Annibynnol bwrdd CI Caerdydd Angharad Thomas, RhG GCI Caerdydd Natalie Holohan , Uwch Swyddog Cynllunio ac Ymyriadau
Dyddiad:	Cymeradwywyd gan Fwrdd CI Caerdydd Ionawr 2023
Teitl Swydd:	Graham Robb, Cadeirydd Annibynnol bwrdd CI Caerdydd
Cymeradwywyd gan:	
Teitl Swydd:	Cyfarwyddwr
Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth:	Gwasanaethau Plant

Mae Llywodraethu a Phenderfynu yn eiddo i Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd .

Pan ystyrir bod angen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, rhaid i chi atodi'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Adroddiad Cabinet neu Benderfyniad Swyddog. Rhaid hefyd anfon copi drwy e-bost at Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk

Cyngor a Chymorth

Canllawiau UNICEF ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Llywodraeth Leol:

[Child rights impact assessment - Child Friendly Cities & Communities \(unicef.org.uk\)](https://www.unicef.org/child-friendly-cities)

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth gyda chwblhau'r AEHP, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk